

Hysbysiad preifatrwydd WCVA: ymgeiswyr am gyllid a derbynwyr cyllid

CYFLWYNIAD

Rydym yn trin preifatrwydd a chyfrinachedd o ddifrif. Rydym wedi datblygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn er mwyn bod mor glir â phosib am y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu a'i defnyddio.

Rydym yn cydymffurfio â phob elfen o ddeddfwriaeth diogelu data y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Rydym yn rheoli sawl cynllun cyllido ar ein rhan ein hunain ac ar ran Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill ('y Cyllidwr/wyr') i gefnogi eu polisiau a chyfrannu at ein cenhadaeth i fod yn gatalydd dros newid positif drwy 'gysylltu, galluogi a dylanwadu' ac i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer 'dyfodol lle mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb'.

Darllenwch yr hysbysiad hwn yn ofalus a chysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â'n harferion preifatrwydd.

PWY YDYM NI?

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru WCVA ydym ni, Elusen Gofrestredig (rhif 218093) a Chwmni Cyfyngedig drwy Warant (rhif 425299).

Mae WCVA wedi'i gofrestru'n Rheolydd Data â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rhif cofrestru Z6141301.

Yn WCVA mae gennym Swyddog Diogelu Data sy'n goruchwyllo ein gweithgareddau prosesu sef Matthew Brown, a gellir cysylltu â hi drwy ebostio dpo@wcva.cymru neu ffonio 0300 111 0124.

PWY YW'R RHEOLYDD DATA?

Y Cyllidwr yw'r Rheolydd Data ar gyfer pob data personol sydd ei angen i helpu i weithredu'r rhaglen ac mae ei hysbysiad preifatrwydd mewn perthynas â hyn ar gael yma: <https://gov.wales/docs/wefo/publications/180525-wefo-gdpr-cy.pdf>.

Ac yma: <https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-grantiau-llywodraeth-cymru> am grantiau Llywodraeth Cymru.

Mae Rheolydd Data yn penderfynu dibenion a dulliau prosesu data. Gofynnwn i chi ddarparu gwybodaeth yr ydym ei hangen i brosesu'ch cais ac yn hyn o beth WCVA yw'r Rheolydd Data.

SUT YDYM YN CASGLU'CH GWYBODAETH BERSONOL

Pan fo'ch mudiad yn ymgeisio am gyllid o unrhyw un o'r cynlluniau cyllido yr ydym yn eu gweinyddu, ac os dyfarnir cyllid wedi hyn, byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi a'ch cydweithwyr, eich ymddiriedolwyr, eich cyfarwyddwyr a'ch personél allweddol fel rhan o'r broses ymgeisio.

PA GATEGORIÄU O DDATA PERSONOL Y BYDDWN YN EU CASGLU A'U DEFNYDDIO?

- Eich enw
- Eich manylion cyswllt (gan gynnwys cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad ebost)
- Eich profiad blaenorol mewn perthynas â'r prosiect arfaethedig
- Eich dyddiad geni (wrth ymgeisio am gyllid benthyg)
- Eich rôl yn eich mudiad a/neu'r prosiect a ariennir
- ac unrhyw wybodaeth bersonol arall yr ydych yn ei rhoi i ni.

Y SAIL GYFREITHLON DROS BROESU'CH DATA PERSONOL

Y sail gyfreithlon dros brosesu'ch data personol yw 'mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithlon a geisir gan y rheolydd', Erthygl 6(1)(f) o'r GDPR. Y buddiannau cyfreithlon yw rhai WCVA i asesu'ch cymhwysedd am gyllid a chyfathrebu â chi i weinyddu'r cyllid hwnnw, os ydych yn llwyddo.

PAM RYDYM YN CASGLU AC YN DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH BERSONOL

Rydym yn dal eich manylion cyswllt gan eich bod wedi dangos diddordeb mewn ymgeisio am gyllid gan WCVA. Gallem ddefnyddio'r rhain i gyfathrebu â chi ynglŷn â'ch statws o ran ein Rhestr Buddiolwyr Cymeradwy, ynglŷn â chais penodol am gyllid yr ydych wedi'i gyflwyno neu ynglŷn â'ch prosiect wrth iddo fynd rhagddo wedi i gyllid gael ei ddyfarnu. Gallem hefyd gysylltu â chi o bryd i'w gilydd ynglŷn â rowndiau cyllido sydd ar ddod neu i roi gwybod am ddiwyddiadau a hyfforddiant sy'n benodol i'r gronfa/cronfeydd yr ydych wedi ymgeisio iddi/iddynt. Gellid gwneud hyn drwy ein llwyfannau ymgeisio a rheoli prosiect arlein neu drwy ebost.

Byddwn yn defnyddio Porth Cais Amlbwrpas CGGC (MAP) ar gyfer ceisiadau arlein, a ffurflenni Word lle nad ydynt yn defnyddio'r porth.

Cyn Ionawr 2020 fe ddefnyddiwyd eDendroCymru ar gyfer ceisiadau arlein: mae ei hysbysiad preifatrwydd ar gael ar <https://www.jaggaer.com/service-privacy-policy/>

Byddwn yn defnyddio ein System Data Prosiect (PDS) ein hunain i reoli prosiectau.

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth i weinyddu, archwilio a monitro'r cronfeydd ac ni fyddwn yn datgelu'ch gwybodaeth i'n cyllidwyr na'n partneriaid cyflenwi ond at ddibenion ymchwilio, gwirio a gwerthuso neu i gefnogi'r broses ymgeisio.

Cyn i ni ddarparu cyllid i'ch mudiad, mae'n bosib y byddwn yn cynnal gwiriadau at ddibenion atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio'ch hunaniaeth. I gynnal y gwiriadau hyn bydd angen i ni brosesu data personol amdanoch, ac mae'n bosib y byddwn yn rhannu'r data hwn ag asiantaethau atal twyll allanol. **Os bwriadwn ddefnyddio gwasanaethau asiantaethau atal twyll allanol, byddwn yn cael eich caniatâd penodol yn gyntaf.**

Os casglwn ddata personol ynglŷn â chyfranogwyr prosiectau er mwyn darparu tystiolaeth o gymhwysedd yn uniongyrchol i gyllidwyr, ymdrinnir â hyn mewn hysbysiad ar wahân, sydd ar gael [yma](#).

PWY ARALL FYDD YN CAEL EICH DATA?

Rhanddeiliaid eraill, gan ddibynnu ar y cynllun cyllido: gall y rhain yn cynnwys Ipswich Software Limited (sy'n gyfrifol am yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw MAP a PDS, Bravo Solution os wnaetheich cais cael ei brosesu trwy eDendroCymru cyn Ionawr 2020), Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Busnes Cymdeithasol Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd, archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd, neu werthuswyr a Phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru (cynghorau gwirfoddol sirol).

A FYDD EICH DATA YN CAEL EI DROSGLWYDDO I DDERBYNNYDD Y TU ALLAN I'R ARDAL ECONOMAIDD EWROPEAIDD?

Na fydd, ni fydd WCVA yn trosglwyddo'ch data i dderbynnydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

AM BA MOR HIR Y BYDDWN YN CADW'CH DATA?

Os ydych wedi ymgeisio am gyllid a ddarperir drwy Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, bydd eich data'n cael ei gadw ar weinyddion diogel tan 31 Rhagfyr 2026, neu'n hwyrach os yw Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn rhoi gwybod i ni fod hynny'n angenrheidiol i reoli neu archwilio'r rhaglenni.

Serch hynny, os yw'ch mudiad wedi sicrhau cyllid o dan Reoliad Eithriad Bloc neu De Minimis, cedwir eich data personol am 10 mlynedd ar ôl diwedd unrhyw gymorth a ddyfarnwyd.

Ar gyfer cynlluniau cyllido eraill, byddwn yn cadw'ch data personol tan, o leiaf, chwe blynedd ariannol lawn ar ôl i'ch prosiect a ariannwyd ddod i ben, mae'n rhydd oddi wrth bob amod cysylltiedig â'r cyllid a ddyfarnwyd ac mae pob taliad wedi'i wneud.

Os ydych yn ymgeisydd aflwyddiannus i gronfa na ddarperir drwy Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, byddwn yn dinistrio'ch data personol dim hwyrach nag un flwyddyn ariannol lawn ar ôl i'r cynllun cyllido ddod i ben.

Mae gennym ymrwymiad cryf i ddiogelwch gwybodaeth, ac rydym yn cymryd camau rhesymol a phriodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei chamdefnyddio, ei haddasu, ei llygru neu gael ei chyrchu heb awdurdod. Rydym wedi rhoi gweithdrefnau corfforol, electronig a rheolaethol ar waith er mwyn amddiffyn a diogelu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu i ni, gan gynnwys defnyddio amgryptio a ffugenwi.

PA HAWLIAU SYDD GENNYCH

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r data personol sydd gennym amdanoch. Dydy'r holl hawliau ddim yn berthnasol yn yr holl amgylchiadau. Os hoffech arfer unrhyw rai o'r hawliau hyn, cysylltwch â ni yn y ffyrdd a nodir yn yr adran 'Pwy ydym ni?':

- Mae gennych hawl i gael mynediad at y wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch.
- Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch yr ydych yn credu sy'n anghywir neu'n anghyflawn.
- Mae gennych hawl i wrthwynebu unrhyw achos o brosesu eich gwybodaeth bersonol lle byddwn yn dibynnu ar fudd cyfreithlon i wneud hynny a'ch bod o'r farn bod eich hawliau a'ch buddion chi yn drech na'n rhai ni a'ch bod yn dymuno i ni roi'r gorau iddi. Fodd bynnag, fe allai fod rhesymau cyfreithiol neu resymau teg eraill pam fod angen i ni gadw neu ddefnyddio eich gwybodaeth. Os yw hynny'n wir, byddwn yn ystyried eich

cais ac yn esbonio pam na allwn gydymffurfio ag ef. Gallwch ofyn i ni gyfyngu ar ddefnydd o'ch gwybodaeth bersonol tra byddwn yn ystyried eich cais.

- Mae gennych hawl i wrthwynebu os ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol. Os na hoffech i ni gyfathrebu â chi mwyach, cysylltwch â ni. Ni fyddwn wedyn yn cyfathrebu â chi, ond byddwn yn cadw cofnod ohonoch a'ch cais i beidio â chlywed gennym. Pe baem yn dileu'ch holl wybodaeth o'n cronfeydd data marchnata uniongyrchol, ni fyddai gennym gofnod o'r ffaith eich bod wedi gofyn i ni beidio â chyfathrebu â chi ac mae'n bosib y byddwch yn dechrau clywed gennym ryw adeg yn y dyfodol, os ydym yn cael eich manylion o ffynhonnell wahanol.
- Mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth. Enw arall ar hyn yw'r hawl i gael eich anghofio neu ddilead. Fyddwn ni ddim bob amser yn cytuno i wneud hyn ym mhob achos, gan y gallai fod rhesymau cyfreithiol neu resymau teg eraill pam fod angen i ni gadw neu ddefnyddio eich gwybodaeth. Os yw hyn yn wir, byddwn yn ystyried eich cais ac yn esbonio pam na allwn gydymffurfio ag ef. Gallwch ofyn i ni gyfyngu ar ddefnydd o'ch gwybodaeth bersonol tra byddwn yn ystyried eich cais.
- Pan fo prosesu'ch gwybodaeth bersonol wedi'i seilio ar eich caniatâd, mae gennych hawl i dynnu'r caniatâd yn ôl unrhyw bryd. Cysylltwch â ni os hoffech wneud hyn.
- Gall fod gennych hawl i gael y wybodaeth bersonol yr ydych wedi'i rhoi i ni mewn fformat y gellir ei aildefnyddio'n rhwydd ac i ofyn i ni anfon y wybodaeth bersonol hon ymlaen yn yr un fformat i fudiadau eraill. Cysylltwch â ni i ddarganfod a yw'r hawl hon yn berthnasol i chi.

I BWY Y DYLECH GWYNO?

Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â Swyddog Diogelu Data WCVA drwy'r manylion a nodir o dan 'Pwy ydym ni?', ond mae gennych hawl i gwyno i'r Rheoleiddiwr Diogelu Data, sef Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, drwy ffonio 0303 123 1113 neu ebostio:

<https://ico.org.uk/global/contact-us/email/> neu ysgrifennu at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.

NEWIDIADAU YN YR HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN

Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ddiwethaf ar 11 Awst 2020. Rydym yn adolygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd a gallem ei newid o bryd i'w gilydd drwy ddiweddarau'r dudalen hon i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a/neu ein harferion preifatrwydd. Fe'ch anogwn i wirio'r hysbysiad preifatrwydd hwn am unrhyw newidiadau yn rheolaidd.



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund**